



Prif Weithredwyr, Ymddiriedolaethau/Byrddau Iechyd
Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol, Awdurdodau Lleol
l'w ddsbarthu i staff iechyd a gofal cymdeithasol

Rhagfyr 2020

Annwyl Gyfeillion

PARTHED: Diogelu chi eich hunan a'r rheini yr ydych yn gofalu amdanynt

Fel gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru, fe wyddom ba mor galed yr ydych yn gweithio drwy gydol y flwyddyn i ddiogelu iechyd eich cleifion a'ch cleientiaid. Nid yw hyn erioed wedi bod yn fwy gwir nag ydyw eleni, wrth i'r pandemig COVID-19 roi pwysau digynsail ar bawb sy'n gweithio yn ein sectorau iechyd a gofal cymdeithasol, ac yn drist iawn mae rhai o'n cydweithwyr wedi marw o'r clefyd hwn.

Bellach, mae gennym y brechlyn cyntaf i gael ei gymeradwyo i'n hamddiffyn rhag COVID-19. Bydd yn cael ei roi ar sail blaenoriaeth, gyda gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol rheng flaen ymhlith y cyntaf i gael cynnig y brechlyn hwn.

Rydym yn eich annog yn gryf i gael y brechiad, sy'n cael ei roi mewn dau ddos, pan fydd yn cael ei gynnig ichi, er mwyn ichi gael imiwnedd a bod yn ddiogel tra byddwch yn gofalu am gleifion a chleientiaid sy'n agored i niwed. Oherwydd hynny, rydym yn credu bod cyfrifoldeb proffesiynol ar weithwyr i fanteisio ar y cynnig hwn. Os bydd y cynnig yn cael ei dderbyn ar raddfa fawr yn y gymuned ehangach, gallai yn y pen draw greu'r amodau i lacio ar y cyfyngiadau y mae COVID wedi eu gorfodi ar ein bywydau i gyd, yn enwedig y rheini yn ein plith sy'n agored i niwed. Fel gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol, gallwn osod esiampl rymus i'r grwpiau eraill sydd wedi cael eu blaenoriaethu gan eu bod mewn categori risg uchel.

Pan fyddwn yn cael ein brechu, byddwn yn diogelu ni ein hunain, a hefyd y gobaith yw y byddwn yn lleihau'r risg o drosglwyddo COVID-19 i'n cleifion, ein cleientiaid, a'n teuluoedd gan beryglu eu bywydau.

Rwy'n gobeithio y byddwch yn ymuno â ni, a llawer o'n cydweithwyr eraill, i wneud y peth iawn drwy gefnogi'r ymgyrch frechu pan fydd honno'n cysylltu â chi i'ch gwahodd. Hefyd bydd cyfleoedd i lawer ohonom gyfrannu drwy gynorthwyo'r ymdrechion lleol.



Mae rhagor o wybodaeth am y brechiad rhag COVID-19 ar gael ar wefan iechyd Cyhoeddus Cymru: <https://icc.gig.cymru/pynciau/imiwneiddio-a-brechlynnau/gwybodaeth-brechlyn-covid-19/>

Gan y bydd y fflw a COVID-19 ill dau yn cylchredeg yn ystod y gaeaf hwn, hoffem eich atgoffa bod gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol rheng flaen hefyd â'r hawl i gael brechiad rhag y fflw am ddim bob blwyddyn. Os nad ydych wedi cael eich brechiad rhag y fflw eto, ond eich bod am gael eich brechu i'ch diogelu chi eich hunan a'ch cleifion/cleientiaid, bydd angen ichi sicrhau bod 7 diwrnod rhwng cael y brechiad rhag y fflw a dos cyntaf y brechiad rhag COVID-19.

Rydym mor ddiolchgar i bob un ohonoch, am eich arweinyddiaeth, eich gofal, a'r gwasanaeth yr ydych yn ei ddarparu ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru, sef pethau y mae eu hangen heddiw yn fwy nag erioed o'r blaen.

Dymuniadau gorau ichi bob un.


Yn gywir



Albert Heaney
Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol



DR FRANK ATHERTON
Prif Swyddog Meddygol/Cyfarwyddwr
Meddygol, GIG Cymru



Yr Athro Jean White CBE
Prif Swyddog Nyrsio



Ruth Crowder
Prif Gynghorydd Proffesiynau
Perthynol i Iechyd



Delia Ripley
Dirprwy Brif Gynghorydd Gwyddonol